# Cofrestr Fabwysiadu Cymru

# Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Defnydd



Dyddiad cyhoeddi 15.03.19
Dyddiad Adolygu 5.12.21 a 11.11.25

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

link maker

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | Tudalen 3 |
| Gofynion Deddfwriaethol | Tudalen 4 |
| Disgwyliadau | Tudalen 4 |
| Adran 1: Datblygu, Ianlwytho ac addasu proffiliau plant | Tudalen 5 |
| Adran 2: Datblygu, Ianlwytho ac addasu proffiliau mabwysiadwyr | Tudalen 6 |
| Adran 3: Pan fo mabwysiadwyr eisoes wedi'u paru â phlentyn lleol | Tudalen 7 |
| Adran 4: Pwy sy'n gallu gweld y proffiliau a beth gallan nhw ei weld? | Tudalen 8 |
| Adran 5: Gofynion cyfieithu Cymraeg | Tudalen 9 |
| Adran 6: Rheoli perfformiad | Tudalen 10 |
| Adran 7: Sicrwydd Ansawdd | Tudalen 11 |
| Atodiad 1: Ffurflen ganiatâd mabwysiadwr | Tudalen 12-15 |
| Atodiad 2: Protocol Rhwng Cofrestri | Tudalen 16-18 |
| Atodiad 3: Siart lif: proffil plentyn | Tudalen 19 |
| Atodiad 4: Siart lif: proffil mabwysiadwr | Tudalen 20 |

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

link maker

## Cyflwyniad

Ariennir y Gofrestr gan Lywodraeth Cymru, ac mae wedi bod ar waith ers 1 Mehefin 2014. Ers 1 Medi 2015 mae wedi cael ei chynnal gan Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) Cymru ac fe'i defnyddir gan bob Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol ac Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol yng Nghymru. Mae sail statudol i sut caiff y Gofrestr ei defnyddio yng Nghyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015 sy'n gofyn i awdurdod lleol neu asiantaeth mabwysiadu gwirfoddol gyflwyno manylion plentyn a mabwysiadwr i'r Gofrestr Fabwysiadu.

Diben y Gofrestr yw cynorthwyo paru plant â mabwysiadwyr trwy sefydlu system genedlaethol fel y gellir ystyried yr amrywiaeth ehangaf posibl o gysylltiadau o bob rhan o Gymru a, lle bo'n briodol, o rannau eraill o'r DU a sicrhau y gellir dod o hyd i leoliad addas cyn gynted â phosib.

Ei rôl hefyd yw lleihau oedi i blant sy'n aros i gael eu mabwysiadu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol megis cysylltu gweithredol trwy gyfarfodydd Fforwm Ymarferwyr a Rheolwr bob tri mis ledled Cymru a chyfarfodydd Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol â'r Gofrestr, cyfarfodydd â rhanbarthau, diweddariadau i Reolwyr Mabwysiadu Rhanbarthol a digwyddiadau'r Gofrestr megis Diwrnodau Cyfnewid a Diwrnodau Gweithgareddau Mabwysiadu. Mae'r Gofrestr hefyd yn tracio plant a mabwysiadwyr lle na chwilir am deuluoedd yn sgil penderfyniad gan asiantaeth.

Mae'r Gofrestr yn cynnig data ac adroddiadau rheolaidd ynglŷn â phlant a mabwysiadwyr i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, a diweddariadau misol am niferoedd y plant a'r mabwysiadwyr ar y Gofrestr i ranbarthau ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol. Mae hyn yn helpu i gyfeirio recriwtio ar sail anghenion plant sy'n aros, a strategaethau'r cyfryngau a marchnata.

Ariannwyd rhagor o gyllid gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Cofrestr fwy effeithlon ac effeithiol. O fis Mawrth 2019 caiff y gwasanaeth ei ailenwi'n Gofrestr Fabwysiadu Cymru (CFC) a bydd yn gofrestr ar-lein sy'n defnyddio'r gwasanaeth Link Maker. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer defnyddio Link Maker i ychwanegu plant a mabwysiadwyr at Gofrestr Fabwysiadu Cymru. Mae'r ddogfen hon yn disodli'r holl ganllawiau a dogfennau eraill (gan gynnwys y ffurflen atgyfeirio) sy'n gysylltiedig â'r hen Gofrestr Fabwysiadu Cymru. Cyfeirir at Link Maker fel CFC trwy gydol gweddill y ddogfen hon.

## Gofynion Deddfwriaethol

Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ar waith i lywodraethu rhannu gwybodaeth rhwng y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, y 22 awdurdod lleol, asiantaethau rhanbarthol ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif am fabwysiadwyr a phlant yn cael ei rhannu'n gyfreithlon ac yn briodol. Mae pob parti sydd wedi ymrwymo i'r WASPI wedi llofnodi i ddweud ei fod yn deall ac yn derbyn y cynnwys.

Mae'r holl gyrff a grybwyllwyd uchod yn rhwym hefyd i Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 ac yn deall mai dim ond â phartïon awdurdodedig a chyda chaniatâd y gellir rhannu'r wybodaeth yng Nghofrestr Fabwysiadu Cymru (CMC) a bod hawl gan bartïon i'w cofnodion gael eu dileu os byddant yn gofyn am hyn, gyda rhai eithriadau fel a ganiateir gan y ddeddfwriaeth.

Bydd gan bob asiantaeth eu polisïau storio a chadw gwybodaeth eu hunain; fodd bynnag, rydym wedi atodi ffurflen ganiatâd generig ar ffurf Atodiad 1 i'r ddogfen hon sy'n esbonio wrth ddarpar fabwysiadwyr sut caiff eu gwybodaeth ei rheoli. Rhaid darparu hyn i bob mabwysiadwr ar ôl cytuno i roi caniatâd iddo/iddi.

Mae Cofrestr Fabwysiadu Cymru yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg a darpariaethau deddfwriaethol cysylltiedig ac mae'n gwbl ddwyieithog.

Mae canllawiau manwl i ddefnyddwyr ar gael o wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn ogystal â gwefannau eraill y rhanbarthau a Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC).

Dylid cysylltu â'r Tîm CFC yn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â defnyddio CFC.

## Disgwyliadau o Asiantaethau Mabwysiadu

Disgwylir i Asiantaethau Mabwysiadu:

- Lanlwytho proffiliau plant i CFC o fewn mis ar ôl gwneud gorchymyn lleoliad (gweler Adran 1)
- Lanlwytho proffiliau mabwysiadwyr o fewn mis ar ôl penderfyniad y Penderfynwr Mabwysiadu (gweler Adran 2)

- Sicrhau bod aelodau perthnasol o staff yn cael eu hyfforddi a'u cynorthwyo i ddefnyddio CFC
- Datblygu proses fewnol sy'n cydymffurfio â'r canllawiau hyn, gan gynnwys sut caiff cyfieithu i'r Gymraeg ei ystyried wrth lunio'r amserlenni a sut caiff y cyfieithu ei gwblhau
- Datblygu proses sicrwydd ansawdd fewnol at ddefnydd CFC
- Tynnu sylw Rheolwr Arfer CFC at unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'r defnydd o CFC fel y gellir eu datrys mewn partneriaeth mewn da bryd.

## Adran 1

## Datblygu, lanlwytho ac addasu proffiliau plant

Bydd gan wasanaethau rhanbarthol eu cytundebau eu hunain o ran pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a lanlwytho proffil plentyn. Weithiau gweithiwr cymdeithasol y plentyn yw'r person hwn ond mewn gwasanaethau eraill gallai fod gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r Chwiliwr Teulu gyda'i gilydd.

Mae angen i wasanaethau rhanbarthol sicrhau bod proses ysgrifenedig ar waith i staff, ni waeth beth yw eu trefniadau â'r awdurdodau lleol maent yn gyfrifol amdanynt, fel bod staff yn glir pwy sy'n gyfrifol am beth a phryd mae angen i hyn ddigwydd.

Unig ofyniad CFC yw cael digon o wybodaeth mewn proffil i'w alluogi i ddod o hyd i gysylltiadau posib. **Ni ddylai** proffiliau ailadrodd yr wybodaeth helaeth a geir mewn dogfennau megis CAR B. Ni fyddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu â darpar fabwysiadwr oni bai bod pob parti'n cytuno y dylid dod o hyd i gyswllt.

Dylai proffil fod yn grynodeb o bersonoliaeth, agwedd, hoffterau a chasbethau'r plentyn ac unrhyw faterion blaenllaw megis cyflyrau iechyd parhaus ac ni ddylai gynnwys mwy na 1,000 o eiriau.  Mae angen i'r rhai sy'n lanlwytho'r proffiliau wybod bod Link Maker yn darparu cysylltiadau, felly dim ond digon o wybodaeth sydd angen i gysylltiadau posibl gael eu nodi. Yn dilyn trafodaethau gyda gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu a mabwysiadwyr y bydd angen datgelu gwybodaeth bellach. Bydd angen i asiantaethau gael proses ysgrifenedig ar waith sy'n dangos bod proffiliau'n cael gwiriadau sicrwydd ansawdd rheolaidd.

Gellir lanlwytho atodiadau i gofnodion plentyn neu fabwysiadwr ac nid oes angen eu cyfieithu. Mae canllaw defnyddiwr ar gyfer y rhai sy'n lanlwytho proffiliau ar gael i Asiantaethau ac ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Gellir diweddaru proffiliau ond mae angen i Asiantaethau sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Os oes gan blentyn eisoes broffil ar Link Maker ni fydd angen i chi ei greu eto.

**Ni all y proffil fynd yn fyw ar y Gofrestr nes bod fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r proffil ar gael. O 2019 ymlaen, y sefyllfa gyfreithiol yw bod angen cwblhau'r broses hon o fewn 1 mis ar ôl dyddiad y gorchymyn lleoliad.**

## Adran 2

## Datblygu, lanlwytho ac addasu proffiliau mabwysiadwyr

Mae proffiliau mabwysiadwyr yn cael eu lanlwytho gan Weithwyr Cymdeithasol Mabwysiadu yn bennaf. Mae CFC wedi'i gynllunio i fod yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan fabwysiadwyr, gall y mabwysiadwyr lanlwytho eu proffiliau eu hunain os ydynt yn dymuno gan gynnwys yn Gymraeg a Saesneg os ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus. Bydd angen i asiantaethau sicrhau os bydd mabwysiadwr yn dewis lanlwytho ei broffil ei hun bod y wybodaeth yn cael ei gwirio o ran ansawdd cyn cael ei chyfieithu.

Os yw'r mabwysiadwr yn dewis lanlwytho ei broffil ei hun yn Saesneg, bydd angen i'r Asiantaeth sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg ac fel arall. **Ni all proffil fynd yn fyw ar CFC nes bod fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r proffil ar gael.** Os yw'r proffil mabwysiadwr yn cael ei lanlwytho gan yr Asiantaeth, yna bydd yr un peth yn berthnasol.

Fel gyda phroffiliau plant, ni ddylai'r wybodaeth a gaiff ei lanlwytho mewn proffil mabwysiadwr fod yn fwy na 1,000 o eiriau. Dylai fod yn grynodeb o wybodaeth, sy'n ddigonol i alluogi CFC i nodi cysylltiadau posibl ac nid ailadroddiad o'r asesiad.

Dylid cynnig cyfle i fabwysiadwyr lanlwytho clip fideo. Ni fydd angen cyfieithu hwn ond unwaith eto bydd angen iddo gael ei wirio o ran ansawdd gan yr Asiantaeth.

Bydd canllaw defnyddiwr ar gyfer y rhai sy'n lanlwytho proffiliau ar gael i Asiantaethau ac ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Dylid lanlwytho proffiliau mabwysiadwyr cyn gynted â phosibl ar ôl i Benderfynwr yr Asiantaeth (Fabwysiadu) wneud y penderfyniad i gymeradwyo. **O 2019 ymlaen, y sefyllfa gyfreithiol yw bod angen cwblhau'r broses hon o fewn 1 mis ar ôl penderfyniad Penderfynwr yr Asiantaeth (Fabwysiadu).**

Argymhellir bod gweithwyr cymdeithasol yn cael y caniatadau i wneud unrhyw ddiwygiadau gan y bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau y mae mabwysiadwyr yn gofyn amdanynt yn cael eu gwirio o ran ansawdd gan yr Asiantaeth ac yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl yr angen.

## Adran 3

### Pan fo mabwysiadwyr eisoes wedi’u paru â phlentyn lleol

Pan fo mabwysiadwyr eisoes wedi’u paru â phlentyn lleol, mae angen i chi gofnodi'r mabwysiadwr a'r plentyn ar y Gofrestr gan fod yn rhaid ychwanegu pob plentyn a mabwysiadwr at CFC.

Ar gyfer plentyn sydd wedi'i baru'n lleol neu lle mae pariad mewnol yn cael ei ystyried, bydd angen cwblhau'r holl feysydd **ac eithrio'r blychau testun** a chuddio argaeledd y proffil – mynd ar drywydd cysylltiad neu ei gyfyngu i'w rhanbarth eu hunain, felly dim ond at ddibenion rheoli perfformiad y mae'n hygyrch i’r Asiantaeth / Gwasanaeth Mabwysiadu a’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Ar gyfer mabwysiadwr sydd wedi'i baru'n lleol, neu mae pariad mewnol yn cael ei ystyried, bydd angen cwblhau'r holl wybodaeth sylfaenol, yr holl wybodaeth o’r gwymplen a'r blychau testun canlynol.  Cytunwyd i ddefnyddio'r ymadroddion safonol ar gyfer y blychau testun hyn:

| Blwch Testun: | Cymraeg: | Saesneg: |
|---|---|---|
| Disgrifiad o gartref y mabwysiadwr | Bod y cartref yn bodloni'r gofynion angenrheidiol | Home meets necessary requirements |
| Rhwydwaith cymorth | Bod y rhwydwaith cymorth yn briodol | Support network is appropriate |
| Profiad o ofal plant | Bod y profiad o ofal plant yn briodol | Childcare experience is appropriate |

Bydd angen cuddio argaeledd y proffil - mynd ar drywydd cyswllt neu ei gyfyngu i'w hasiantaeth fabwysiadu eu hunain.

# Adran 4

## Pwy sy'n gallu gweld y proffiliau a beth gallan nhw ei weld?

Gellir cyfyngu proffiliau plant a mabwysiadwyr i reoli pwy all eu gweld. Gellir gwneud hyn, er enghraifft, pan fo mabwysiadwyr eisoes wedi'u paru â phlentyn lleol ac felly nid oes angen gofyn i CFC nodi cysylltiadau. Gellir cuddio'r proffiliau ar gyfer y plentyn a'r mabwysiadwr yn y senario yma fel mai dim ond y rhai sydd â'r caniatâd perthnasol sy'n gallu eu gweld e.e. gweithiwr cymdeithasol y plentyn, y chwiliwr teulu.

Mae CFC yn eich galluogi i gyfyngu mynediad i broffil i'ch rhanbarth, i Gymru yn unig neu'n caniatáu i chi ei agor i bob defnyddiwr a fyddai'n cynnwys Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn berthnasol i broffiliau mabwysiadwyr a phlant. Bydd y Protocol Rhwng Cofrestri yn dal i fod yn berthnasol (gweler Atodiad 2).

Dylid edrych ar bob opsiwn yng Nghymru a thrwy CFC cyn gwneud unrhyw benderfyniadau i ehangu'r chwiliad. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau nad oes oedi diangen, os nad oes cysylltiadau priodol ar gael yng Nghymru, neu bod rhesymau penodol pam y dylid ceisio lleoliad y tu allan i Gymru ar unwaith (fel y cofnodir ar y Cynllun a Chofnod Canfod Teuluoedd), yna rhoddir ystyriaeth i fanylion y plentyn gael eu hagor ledled y DU, trwy Link Maker, cyn gynted â phosibl. Ni ddylai hyn fod yn hwyrach na 3 mis o'r dyddiad y cafodd proffil llawn ei lanlwytho i'r Gofrestr.

Ar gyfer mabwysiadwyr, bydd bod ar y system hon yn eu galluogi i weld ystod eang o blant, fodd bynnag, dylent bob amser drafod plentyn gyda'u gweithiwr cymdeithasol eu hunain cyn iddynt gychwyn sgwrs gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn trwy CFC. Mae angen i brosesau mewnol adlewyrchu hyn a bod yn glir ynghylch pwy fydd yn gyfrifol am wneud unrhyw welliannau.

Efallai y bydd angen i sawl person yn y rhanbarth gael mynediad i'r proffiliau: gweithiwr cymdeithasol y plentyn; rheolwr tîm y plentyn; chwiliwr teulu; rheolwr yr asiantaeth fabwysiadu; ac adran cymorth busnes yr asiantaeth fabwysiadu. Gall hyn fod at wahanol ddibenion, er enghraifft, efallai y bydd angen mynediad ar yr adran cymorth busnes at ddibenion rheoli perfformiad tra gall rheolwyr fod angen mynediad er mwyn gwirio ansawdd proffiliau. Mae angen i brosesau mewnol nodi pwy fydd yn cael mynediad ac i ba lefel.

# Adran 5

## Gofynion cyfieithu Cymraeg

Mae Cofrestr Fabwysiadu Cymru yn gwbl ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd tudalen flaen y Gofrestr yn galluogi defnyddwyr i fynd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg a bydd yr holl feysydd gwybodaeth sylfaenol, blychau ie a na ac opsiynau cwymplenni yn cael eu cyfieithu'n awtomatig i'r Gymraeg drwy'r dull hwn.

Fodd bynnag, bydd angen cyfieithu pob blwch testun ym mhroffil y plentyn a'r mabwysiadwr i'r Gymraeg. **Ni all proffiliau fynd yn fyw nes bod fersiwn Gymraeg a Saesneg ar gael.**

Mae mabwysiadu bob amser yn ddigwyddiad sy'n cael ei gynllunio ac felly mae angen i'r amser sy'n ofynnol ar gyfer cyfieithu gael ei gynnwys yn y gwaith cynllunio o'r cychwyn cyntaf i sicrhau y gall y proffil fynd yn fyw cyn gynted â phosibl.

Efallai yr hoffech lanlwytho atodiadau i Link Maker, ni fydd angen cyfieithu'r rheini i'r Gymraeg. Ni fydd angen cyfieithu clipiau fideo chwaith.

Fel arfer, bydd gan asiantaethau a gwasanaethau broses gyfieithu i'r Gymraeg sydd eisoes ar waith. Ar gyfer y Gwasanaethau Rhanbarthol mae hyn fel arfer trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag un o'r Awdurdodau Lleol sy'n rhan o'r rhanbarth. Er enghraifft, mae'r holl gyfieithu ar gyfer Gwasanaeth y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Caerdydd.

Pwy bynnag rydych chi'n ei gomisiynu i ymgymryd â'r cyfieithiad, bydd angen i chi fod yn sicr nad oes unrhyw ddata cyfrinachol yn cael ei anfon i'r gwasanaeth neu bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â disgwyliadau'r rhanbarth/Asiantaeth o ran cyfrinachedd. Cyfrifoldeb yr Asiantaethau yw sicrhau bod contractau'n adlewyrchu hyn yn briodol. Yn ogystal, bydd angen i chi fod yn ofalus wrth anfon ymlaen ar ddamwain negeseuon e-bost ag unrhyw wybodaeth fanwl am y plentyn nad ydynt yn cael eu hanfon yn anfwriadol i'r gwasanaeth cyfieithu. Dylai'r contract / cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r gwasanaeth cyfieithu hefyd nodi amserlen y cytunwyd arno ar gyfer cyfieithu testun er mwyn peidio ag achosi oedi wrth i'r proffil fynd yn fyw.

## Adran 6

## Rheoli Perfformiad

Bydd CFC yn galluogi rheolwyr i nodi achosion lle bu gweithgarwch cyfyngedig am gyfnod o amser, llwythi achosion y tîm, ar ba gam mae pob achos ac ati. Mae hwn yn adnodd rheoli defnyddiol mewn perthynas â pharatoi ar gyfer goruchwylio, cael trosolwg o waith y tîm, cael trosolwg o lwythi achosion y gweithiwr unigol a bydd yn nodi meysydd lle gallai fod angen iddynt wirio ansawdd megis gyda phroffiliau sydd wedi'u diwygio neu sy'n aros i gael eu cyfieithu.

Cyfrifoldeb y rheolwr yw sicrhau bod y wybodaeth rheoli perfformiad sy'n cael ei chasglu yn gywir ac yn gyfredol.

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn disgwyl i Asiantaethau gymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod prosesau clir ar waith ar gyfer craffu'n rheolaidd ar y wybodaeth rheoli perfformiad sy'n ymwneud â gweithgarwch y Gofrestr. Bydd gwybodaeth am y defnydd o CFC yn cael ei chasglu gan Dîm Canolog GMC bob tri mis, fel sy'n digwydd nawr.

Mae CFC yn gallu cadw gwybodaeth am dair blynedd o'r adeg y caiff y cofnod ei gau. Ar ôl tair blynedd bydd unrhyw wybodaeth adnabod yn cael ei thynnu o'r cofnod a dim ond gwybodaeth a fydd ei hangen ar gyfer casglu data ac adrodd e.e. ethnigrwydd fydd ar ôl.

## Adran 7

## Sicrwydd Ansawdd

Bydd angen i bob Asiantaeth ddatblygu eu proses fewnol eu hunain ar gyfer sicrhau'r defnydd o CFC. Bydd angen i'r broses hon gynnwys manylion y rheolwr y disgwylir iddo wirio ansawdd proffiliau'r plentyn a'r mabwysiadwr, ar ba bwynt yn y broses y bydd hyn yn digwydd a sut y bydd hyn yn cael ei fwydo'n ôl i'r person sydd wedi datblygu'r proffil. Dylai'r broses sicrwydd ansawdd gynnwys craffu ar gynnwys y proffil, amseroldeb a ph'un a yw'n cadw at y canllawiau hyn.

Bydd y Tîm Canolog yn GMC yn rhan o'r broses sicrwydd ansawdd genedlaethol ar gyfer CFC drwy adolygu'r wybodaeth a gedwir ar CFC yn rheolaidd i sicrhau y cedwir at y canllawiau ac y rhoddir cymorth ac arweiniad pellach i Asiantaethau.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

link maker

# Atodiad 1: Ffurflen ganiatâd ar gyfer Mabwysiadwyr

## GWYBODAETH I DDARPAR FABWYSIADWYR A HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Beth yw Cofrestr Fabwysiadu Cymru?

Mae Cofrestr Fabwysiadu Cymru yn wasanaeth canfod teuluoedd sy'n cynnwys cronfa ddata o blant sy'n disgwyl am deuluoedd mabwysiadol a darpar fabwysiadwyr cymeradwy sydd ar gael. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth ar y gronfa ddata er mwyn creu cyfuniadau posib rhwng plant a darpar fabwysiadwyr. Rydym hefyd yn cynnal ystod o weithgareddau i baru teuluoedd â phlant. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnig cyfleoedd i ddarpar fabwysiadwyr fod yn rhagweithiol yn y broses canfod teulu ac maent yn cynnig gwybodaeth uniongyrchol i fabwysiadwyr am blant sy'n aros i gael eu paru.

Caiff Cofrestr Fabwysiadu Cymru ei gweithredu gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru.

### Sut mae Cofrestr Fabwysiadu Cymru yn gweithio ar gyfer plant

Ein nod yw lleihau'r amser y mae plentyn yn aros am deulu mabwysiadol drwy weithio'n agos gyda'r holl asiantaethau mabwysiadu ledled Cymru. Pan fo cynllun mabwysiadu plentyn wedi'i gadarnhau, bydd ei weithiwr cymdeithasol ef neu hi yn ceisio dod o hyd i deulu mabwysiadol yn rhanbarth y plentyn. Fodd bynnag, os nad oes teulu'n cael ei ganfod, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gwneud proffil y plentyn yn fwy agored ar Link Maker. Caiff chwiliadau cyson eu gwneud o'r gronfa ddata i chwilio am gyfuniadau posib gyda darpar fabwysiadwyr ledled Cymru yn ogystal a dangos y plant mewn digwyddiadau canfod teulu.

### Sut mae Cofrestr Fabwysiadu Cymru yn gweithio i Ddarpar Fabwysiadwyr

Ar ôl i chi gael eich cymeradwyo gan asiantaeth fabwysiadu, gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i blentyn neu blant i chi. Mae'n bosib y bydd plentyn eisoes wedi ei nodi gan eich asiantaeth ac os felly bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn rhoi eich manylion ar Gofrestr Fabwysiadu Cymru at ddibenion ystadegol. Mae hyn er mwyn

Cofrestr Fabwysiadu Cymru
Adoption Register Wales


Dyddiad cyhoeddi 15.03.19
Dyddiad Adolygu 5.12.21 a 11.11.25

galluogi'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i gadw trosolwg o'r angen am leoliadau mabwysiadol ac i nodi unrhyw newidiadau y gallai fod angen i ni eu gwneud i'n harferion yn y dyfodol.

Os nad yw pariad wedi'i ganfod yn y rhanbarth, gall eich gweithiwr cymdeithasol wneud eich proffil yn fwy agored ar Link Maker i ehangu'r gynulleidfa y gellir ei chyrraedd.

Os cewch eich nodi yn gyswllt addas i blentyn, bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn anfon gwybodaeth atoch a bydd eich proffil ar y gofrestr yn cael ei rewi / ei nodi fel 'mynd ar drywydd cyswllt' am ddim mwy na thair wythnos.  Os yw'r gweithiwr cymdeithasol yn penderfynu y gall y cyswllt fod yn un addas, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal rhyngoch chi a'r asiantaeth fabwysiadu.  Os nad yw'r cyswllt yn mynd rhagddo daw eich manylion yn rhydd i gael eu gweld unwaith eto gyda chysylltiadau pellach i blant sydd yn aros.

**Cydsyniad a chyfrinachedd**

Bydd gofyn i chi lofnodi cydsyniad i'ch gwybodaeth gael ei rhoi i Gofrestr Fabwysiadu Cymru.

Caiff eich holl wybodaeth ei chofnodi a'i chadw mewn modd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio at ddibenion dod o hyd i deuluoedd a bydd yn cael ei thynnu oddi ar Gofrestr Fabwysiadu Cymru a'i dileu a gwaredu'n ddiogel pan nad oes ei hangen bellach.  Gallwch hefyd ddewis diddymu eich cydsyniad i roi eich manylion ar Gofrestr Fabwysiadu Cymru ar unrhyw adeg trwy gysylltu â ni.

**Protocol Rhwng Cofrestri**

Mae Cofrestr Fabwysiadu Cymru wedi llofnodi Protocol Rhwng Cofrestri gyda Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, sy'n galluogi trefniadau atgyfeirio i ddigwydd gyda Chofrestri datganoledig eraill os caiff meini prawf penodol eu hateb yn unol ag anghenion y mabwysiadwyr a'r plant.

## Cyswllt

Gweithredwn linell gymorth bum diwrnod yr wythnos, dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 1.00pm.

Ffôn **029 2087 3799**

E-bost adoptionregisterwales@adoptcymru.com

Gwefan Cofrestr Fabwysiadu Cymru - Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

Cyfeiriad Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

Rhowch

<u>LOGO EICH ASIANTAETH yma</u>

## CANIATÂD I GOFNODI GWYBODAETH AR GOFRESTR MABWYSIADU CYMRU

| | |
|---|---|
| **Rydw i / Rydym wedi cael gwybodaeth am Gofrestr Fabwysiadu Cymru ac yn deall y broses o gofnodi, storio a rheoli ein gwybodaeth.**<br><br>**(Dilëwch fel y bo'n briodol)**<br><br>**Argraffwch y manylion canlynol:-** | |
| **Enw(au):**<br><br><br><br>**Llofnod:** | **Cyfeiriad:** |
| **Enw'r Gweithiwr Cymdeithasol a Llofnod:** | |
| **Asiantaeth:** | |

***Cedwir y ffurflen hon gan yr asiantaeth gymeradwyo ac ni chaiff ei hanfon i Gofrestr Fabwysiadu Cymru.***

# Atodiad 2 - Protocol Rhwng Cofrestri

Mae Cofrestri Mabwysiadu yn gweithredu yng Nghymru a'r Alban ac mae system gyfatebol, ARIS (Adoption Regional Information System), yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. Ar adeg datblygu'r ddogfen hon cawsom wybod y byddai bwlch o ran darparu Cofrestr yn Lloegr. Bydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn sicrhau bod Rhanbarthau ac AMGau yn cael eu diweddaru am yr amgylchiadau hyn wrth i'r wybodaeth hon ddod ar gael.

Nod y protocol hwn yw amlinellu'r trefniadau gweithio ar y cyd a fydd yn sicrhau bod y Cofrestri'n cydweithio'n effeithiol er mwyn helpu i leihau'r oedi wrth ddod o hyd i deuluoedd i blant ledled y DU lle taw mabwysiadu yw eu cynllun.

**Protocol ar gyfer cydweithio**

Bydd y rhan fwyaf o blant yn cael eu lleoli gyda mabwysiadwyr o asiantaethau yn y wlad lle maent yn preswylio. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau penodol ac y cytunwyd arnynt bydd yn briodol atgyfeirio plant a darpar fabwysiadwyr at Gofrestr(i) y gwledydd eraill. Ni ragwelir y bydd atgyfeirio plant o un Gofrestr i'r llall yn rhywbeth cyffredin neu'n digwydd dim ond oherwydd nad oes lleoliad wedi'i ganfod ar gyfer plentyn (neu ddarpar fabwysiadwyr) drwy eu Cofrestr eu hunain.

Bydd yr holl atgyfeiriadau Rhwng Cofrestri yn cael eu rheoli gan y Gofrestr gartref ac ni fydd asiantaethau yn gallu gwneud atgyfeiriadau yn uniongyrchol i un o'r Cofrestri eraill. Mae hyn yn osgoi'r angen i'r Cofrestri ymrwymo i gytundebau rhannu data ffurfiol gydag asiantaethau atgyfeirio yn y gwledydd eraill.

Rhaid bod atgyfeiriad wedi'i wneud i'r Gofrestr gartref, a rhaid bod tystiolaeth nad oes unrhyw bariad addas ar gael ac nad oes unrhyw gysylltiadau yn cael eu dilyn drwy'r Gofrestr honno, cyn y gellir ystyried atgyfeirio at un neu fwy o'r lleill.

Rhaid i'r cais i atgyfeirio at un o'r Cofrestri eraill gael ei wneud gan asiantaeth y plentyn / mabwysiadwyr i reolwr y Gofrestr gartref. Gall rheolwr pob Cofrestr hefyd awgrymu i'r asiantaeth sy'n gyfrifol am blentyn neu ddarpar fabwysiadwyr y gallai fod yn fuddiol atgyfeirio at un neu fwy o'r Cofrestri eraill. Bydd yr atgyfeiriad arfaethedig yn cael ei drafod gan reolwyr y ddwy Gofrestr dan sylw a rhaid i'r ddau gytuno bod yr atgyfeiriad yn briodol er mwyn bwrw ymlaen â hyn.

Bydd ystyriaeth o gysylltiadau posibl ar gyfer plant neu deuluoedd a atgyfeiriwyd o dan y protocol hwn yn cael ei drafod yn brydlon – i'r un amserlenni a gymhwysir i unrhyw atgyfeiriad arall.

Bydd yr holl gysylltiadau posibl sy'n deillio o atgyfeiriad rhwng Cofrestri yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at yr asiantaeth atgyfeirio gan y Gofrestr sydd wedi gwneud y cysylltiadau.

Bydd pob Cofrestr yn monitro nifer yr atgyfeiriadau rhwng Cofrestri y maent yn eu gwneud a'u derbyn a'r graddau y mae'r rhain yn arwain at nodi pariadau.

Rhaid i unrhyw asiantaeth sy'n gwneud atgyfeiriad plentyn ymrwymo ymlaen llaw i dalu'r ffi rhyng-asiantaeth os nodir lleoliad ac ni ddylai ddiystyru darpar fabwysiadwyr oherwydd hyn.

Ni chodir tâl am atgyfeiriadau rhwng Cofrestri a wneir o dan y protocol hwn.

**Trosglwyddo gwybodaeth**

Er mwyn cynnal diogelwch gwybodaeth, bydd yr holl ddata a drosglwyddir fel rhan o atgyfeiriad rhwng Cofrestri yn cael ei anfon gan ddefnyddio'r systemau diogel sydd gan bob Cofrestr ar waith.

**MEINI PRAWF I'W BODLONI AR GYFER ATGYFEIRIO O UN GOFRESTR I'R LLALL**

Bydd **plant** yn gymwys i gael eu hatgyfeirio at Gofrestr arall lle:

- Mae gan y plentyn anghenion arbennig penodol lle nad oes unrhyw fabwysiadwyr priodol wedi'u nodi gan y Gofrestr gartref **a/neu**
- Mae cenedligrwydd/hunaniaeth y plentyn yn benodol i un o'r 3 Cofrestr arall a allai wneud pariad yno yn fwy priodol ac yn fwy tebygol **a/neu**
- Mae'r plentyn o ethnigrwydd penodol lle nad oes unrhyw fabwysiadwyr priodol wedi'u nodi gan y Gofrestr gartref **a/neu**
- Rhaid i'r plentyn gael ei leoli gryn bellter o'i awdurdod cartref oherwydd bygythiad gwirioneddol neu ganfyddedig i unrhyw leoliad

Efallai y bydd sefyllfaoedd untro yn codi lle gwneir cais i roi plentyn ar Gofrestr gwlad benodol am resymau penodol.   O dan yr amgylchiadau hyn, bydd rheolwyr y

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

link maker

Cofrestri yn cytuno mewn ymgynghoriad â gweithiwr cymdeithasol yr asiantaeth i ba un, os o gwbl, o'r dair Cofrestr y bydd yn briodol atgyfeirio'r plentyn.

Rhaid i blant sydd o oedran i ddeall goblygiadau atgyfeiriad roi eu caniatâd i atgyfeiriad rhwng Cofrestri.

Bydd **Darpar Fabwysiadwyr** yn gymwys i gael eu hatgyfeirio at Gofrestr arall lle:

- Nid oes unrhyw blant priodol wedi'u nodi gan eu Cofrestr gartref **a**
- Mae'r mabwysiadwyr o genedligrwydd/hunaniaeth benodol un o'r 3 gwlad arall, a allai wneud pariad â phlentyn o'r gwledydd hynny yn fwy priodol **a/neu**
- Mae gan y mabwysiadwyr sgiliau, nodweddion neu brofiad penodol i gynnig cartref i blentyn sydd ag anghenion penodol a fyddai'n cyd-fynd ag anghenion plant sy'n ceisio lleoliad yn un o'r Cofrestri eraill **a/neu**
- Mae'r mabwysiadwyr o ethnigrwydd arbennig a fyddai'n cyfateb i ethnigrwydd plant sy'n ceisio lleoliad yn un o'r Cofrestri eraill

Efallai y bydd sefyllfaoedd untro yn codi lle gwneir cais i roi mabwysiadwyr ar Gofrestr gwlad benodol am resymau penodol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd rheolwyr y Cofrestri yn cytuno mewn ymgynghoriad â gweithiwr cymdeithasol yr asiantaeth i ba un, os o gwbl, o'r dair Cofrestr y bydd yn briodol atgyfeirio'r plentyn.

Rhaid i fabwysiadwyr roi eu caniatâd cyn cael eu hatgyfeirio at un o'r Cofrestri eraill.

### Digwyddiadau Paru a Arweinir gan Fabwysiadwyr

Mewn amgylchiadau lle mae plentyn wedi'i atgyfeirio at Gofrestr gwlad arall, gellir gwahodd asiantaeth y plentyn i gynnwys y plentyn hwnnw mewn digwyddiadau paru a arweinir gan fabwysiadwyr fel Diwrnodau Cyfnewid, Diwrnodau Gweithgareddau a digwyddiadau Proffilio Ar-lein a gynhelir gan y Gofrestr honno.

Gellir gwahodd darpar fabwysiadwyr sydd wedi'u hatgyfeirio at Gofrestr gwlad arall hefyd i gymryd rhan mewn digwyddiadau paru a drefnir gan y Gofrestr/Cofrestri arall/eraill.

Bydd hyn yn parhau i fod yn ôl disgresiwn Rheolwr y Gofrestr sy'n cynnal y digwyddiad.

## Atodiad 3 - Proffil Plentyn

Ysgrifennwch broffil y plentyn gan ddefnyddio'r templed ar gyfer proffiliau plentyn yn dilyn penderfyniad Penderfynwr yr Asiantaeth (Fabwysiadu) 'dylid ei leoli'

↓

Gwneud gorchmynion lleoli

↓

Y proffil yn cael ei anfon i'w gyfieithu

↓

Y cyfieithiad Cymraeg o'r proffil yn cael ei anfon yn ôl at yr asiantaeth

↓

Asiantaeth yn lanlwytho fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r proffil i Gofrestr Fabwysiadu Cymru

Ystyriwch pwy sydd angen gallu gweld y proffil e.e. gweithiwr cymdeithasol y plentyn

Nawr bod gennych fersiynau Cymraeg a Saesneg bydd y proffil yn mynd yn fyw. DS: Y sefyllfa gyfreithiol yw bod angen cwblhau'r broses hon o fewn 1 mis o wneud y gorchymyn lleoli.

DS: Pan fo mabwysiadwyr eisoes wedi'u paru â phlentyn lleol gweler Adran 3

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Atodiad 4 - Proffil Mabwysiadwr

Yn ystod y broses asesu:

- esbonio CFC – gan ddefnyddio taflen CFC
- mabwysiadwr i ysgrifennu ei broffil ei hun gyda chefnogaeth y gweithiwr cymdeithasol
- Proffil drafft ynghyd â'r asesiad yn cael ei anfon at y panel

Panel yn gwneud argymhelliad i gymeradwyo

Penderfynwr yr Asiantaeth (Fabwysiadu) yn penderfynu cymeradwyo'r mabwysiadwr

Mae'r mabwysiadwr eisiau lanlwytho ei broffil ei hun – gweithiwr cymdeithasol yn darparu canllaw defnyddiwr ac yn rhoi cyngor ynghylch cynnwys

Ystyriwch pwy sydd angen gallu gweld y proffil

Byddai'n well gan y mabwysiadwr i'r gweithiwr cymdeithasol ysgrifennu a lanlwytho a rheoli'r proffil ar ei ran

Mae'r mabwysiadwr yn lanlwytho ei broffil ei hun, mae'r gweithiwr cymdeithasol yn gwirio ansawdd ac mae'r proffil yn cael ei gwblhau. DS Ni fydd CFC yn caniatáu i'r proffil fynd yn fyw nes bod cyfieithiadau Cymraeg a Saesneg wedi'u lanlwytho

Casglu gwybodaeth am y proffil ar y templed a'i lanlwytho i'r Gofrestr (Link Maker) DS ni fydd CFC yn caniatáu i'r proffil fynd yn fyw nes bod cyfieithiadau Cymraeg a Saesneg wedi'u lanlwytho

Y proffil yn cael ei anfon i'w gyfieithu

Mae'r asiantaeth yn derbyn y proffil wedi'i gyfieithu ac mae fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu hychwanegu at CFC

Nawr bod gennych fersiynau Cymraeg a Saesneg bydd y proffil yn mynd yn fyw. DS: y sefyllfa gyfreithiol yw bod angen cwblhau'r broses hon o fewn 1 mis ar ôl penderfyniad Penderfynwr yr Asiantaeth (Fabwysiadu).

Pan fo mabwysiadwyr eisoes wedi'u paru â phlentyn lleol gweler Adran 2

Cofrestr Fabwysiadu Cymru
Adoption Register Wales



Dyddiad cyhoeddi 15.03.19
Dyddiad Adolygu 5.12.21 a 11.11.25